CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024

CYFLWYNIAD

Pleser i mi eleni yw cael paratoi cyflwyniad i Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, ond sylweddolaf mai dirprwyo rydw i dros Gadeirydd y Gymdeithas, Megan Jones Roberts. Fel y gŵyr llawer ohonoch bu Megan yn brwydro yn erbyn yr aflwydd cancr yna, ac y mae'n dal i dderbyn triniaeth. Mae hi fodd bynnag yn dal i gadw cysylltiad â ni fel swyddogion y gymdeithas, ac yn nodweddiadol ohoni yn ceisio hwyluso ein gwaith er ei habsenoldeb anorfod. Dymunwn iachád llwyr a buan i Megan, ac edrychwn ymlaen i'w gweld wrth y llyw unwaith eto.

Yr ydym fel cymdeithas yn dra diolchgar i Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru am ddyfarnu grant blynyddol i ni sydd yn ein galluogi i gyflogi dau swyddog rhan amser. Yn ei hadroddiad llynedd, tystiodd Megan i waith diflino Lois ac Aled er budd y gymdeithas, ac wrth gwrs er lles holl eisteddfodau lleol Cymru. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi newid. Ymddiswyddodd Aled am resymau personol, ac wedi hysbysebu'r swydd wag a mynd trwy drefn o gyfweliadau, penodwyd Angharad Brinn Morgan o Sgiwen, Castell-nedd. Bydd hithau yn dechrau ar ei swydd newydd ar Fedi'r 1af. Talwyd teyrnged i Aled gan Lois, ei gyd-weithwraig, yn rhifyn mis Mai o 'Steddfota', cylchlythyr y gymdeithas. Meddai Lois: ''Roedd yn amlwg bod ganddo (Aled) weledigaeth sicr, a bu ei gyfraniad at godi proffil y gymdeithas yn amhrisiadwy''. Clywch Clywch. Wrth ddiolch i Aled am ei waith a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol, edrychwn ymlaen hefyd at groesawu Angharad pan ddaw'r cyfle iddi hithau wasanaethu'r gymdeithas ac eisteddfodau lleol Cymru.

Yn rhannol am y rhesymau uchod ac anffawd Lois, methwyd â darparu stondin i'r gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod eleni. Roedd hyn yn siom fawr, ond yn anorfod yn y diwedd o ystyried yr amgylchiadau. Fel na chollwyd cyfle i bwyllgorau hysbysebu eu heisteddfodau, trefnwyd fod rhestrau testunau eisteddfodau lleol ar gael ar stondin Mentrau Iaith. Yr ydym wrthi'n trefnu ein presenoldeb fel arfer yn yr Eisteddod Genedlaethol ym Mhontypridd. Byddwn yn cyflwyno 16 o dystysgrifau i anrhydeddu gwirfoddolwyr sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol de Cymru dros nifer helaeth o flynyddoedd. Mawr yw ein diolch hefyd i gwmni Teithiau Elfyn Thomas am noddi raffl y gymdeithas eleni eto. Byddwn yn tynnu'r raffl ar ein stondin ar ddiwedd wythnos y Genedlaethol.

Dathlwyd penblwydd y gymdeithas yn bum mlwydd ar hugain oed yn Aberystwyth ym mis Hydref. Cafwyd cwmni Elin Jones, Llywydd y Senedd, ar y nos Wener i ginio mawreddog, wrth i fynychwyr hel atgofion a gwrando ar Aled Wyn Davies, Triano a Pharti Camddwr. Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i rannu teisen penblwydd arbennig. Ar y Sadwrn cafwyd noson lawen yng nghwmni Meibion y Mynydd, Merched Soar, Drudwns Aber ac Iwcadwli, gyda Clive Edwards yn arwain. Penwythnos o ddathlu go iawn!

Mae'r galw yn y defnydd o'n tudalen Facebook, cyfrif X (Twitter) ac Instagram yn dal i gynyddu o fis i fis. Mae ein gwefan newydd hefyd i weld yn boblogaidd ac yn ddefnyddiol i eisteddfodwyr. Mae'n bwysig i ni fel cymdeithas ddefnyddio'r cyfryngau modern hyn i ledaenu ein gwaith a'n gwasanaethau i wirfoddolwyr yn ogystal ag eisteddfodwyr a chystadleuwyr.

Rhaid datgan siom fod pump o eisteddfodau wedi dod i ben yn dilyn y pandemig Covid. Llawenydd fodd bynnag yw deall fod eisteddfodau newydd yn cael eu cynnal yn y Felinheli, Gwynedd, y flwyddyn nesaf a Chaergrawnt eleni. Yn ogystal y mae trafodaethau yn parhau gyda chynrychiolwyr mewn pum ardal ar draws Cymru i sefydlu eisteddfodau newydd yn y dyfodol. Byddwn fel cymdeithas yn eu cefnogi yn y paratoadau. Ar yr un pryd, llongyfarchiadau i eisteddfodau Marian-glas a Bro Llandegfan ar ddathlu eu penblwydd yn gant oed eleni.

Diolch i swyddogion y gymdeithas, aelodau'r pwyllgor ac i Lois ac Aled am eu cyfraniad gwerthfawr er budd y gymdeithas a holl eisteddfodau Cymru, a dymunwn bob llwyddiant i'r eisteddfodau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Bill Davies

Is-gadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

CYFARFOD BLYNYDDOL
CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU
8 AWST 2024

AGENDA

1. Croeso gan yr Is-gadeirydd – Bill Davies
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf (Awst 2023)
4. Unrhyw faterion yn codi
5. Sylwadau byr gan yr Is-gadeirydd a'r Swyddog Cyfathrebu am ddatblygiadau'r flwyddyn
6. Derbyn yr adroddiad ariannol
7. Anerchiad gan Mared Rand Jones, Prif Weithredwr CFfI Cymru
8. Ethol Swyddogion

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- Trysorydd
- Ysgrifennydd

9. Unrhyw fater arall o bwys

COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU: 8 AWST 2023

Yn bresennol: Megan Jones Roberts (Cadeirydd), Bill Davies (Is-gadeirydd), Gwyn Parry Williams (Ysgrifennydd), Aled W. Phillips (Swyddog Datblygu), Lois Williams (Swyddog Cyfathrebu) ynghyd ag oddeutu 20 o gynrychiolwyr o wahanol eisteddfodau.

Ymddiheuriadau: Gareth Jones (Trysorydd), Rhian Williams (Chwilog)

Croeso: Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod

1. **Cofnodion:** Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 2 Awst 2022.

2. **Adroddiadau'r Swyddogion:** Cyfeiriodd y Swyddog Datblygu a'r Swyddog Cyfathrebu at y materion canlynol –

- Blwyddyn yn ôl yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion cafwyd wythnos lawn a phrysur.
- Rhwng Awst 2021 a Gorffennaf 2022 cynhaliwyd 20 eisteddfod leol ond hyd yn hyn eleni rhagwelir y cynhelir 85 eisteddfod; gohiriwyd 13 ac yn anffodus daeth tair eisteddfod i ben sef Myddfai, Abertawe a Ciliau Aeron. Fodd bynnag disgwylir y gellir sefydlu pedair eisteddfod newydd.
- Manylwyd ar y gwahanol gystadlaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mewn perthynas â Chystadleuaeth Gorawl y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, ymddangosodd 6 côr ar y llwyfan a'r enillwyr oedd 1af Côr Eifionydd; 2il Côr Buan; 3ydd Côr Marchan. Cynhaliwyd hefyd yn ystod wythnos yr eisteddfod, Gystadleuaeth Perfformio Darn Digri dan nawdd y Gymdeithas pryd yr ymddangosodd saith ar y llwyfan.Cyfeiriwyd at Gystadleuaeth Tlws yr Ifanc 2022/23 i rai dan 25 oed sef darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf, hyd at 2,000 o eiriau. Derbyniwyd darnau gan ddeuddeg eisteddfod leol a chyhoeddir enw'r enillydd dydd Gwener, 11 Awst yn y Babell Lên. Bydd y Prifardd Mei Mac yn arwain sgwrs gyda chyn-enillwyr y gystadleuaeth dydd Mercher, 9 Awst
- Cyfeiriwyd at gystadleuaeth perfformio newydd dan nawdd y Gymdeithas sef "Mewn Cymeriad". Rhoddir cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Caniateir perfformiad hyd at 5 munud wedi ei seilio ar ddewis o ddau sgript sef Owain Glyndwr neu Cranogwen.
- Lansiwyd cystadleuaeth Straeon Steddfota ar ddechrau mis Mawrth ar y cyd â Bro360 a Golwg. Gofynion y gystadleuaeth oedd ysgrifennu erthygl addas ar gyfer papur neu wefan fro, gydag atgofion neu hanesion eisteddfodol. Derbyniwyd chwe ymgais a'r buddugwyr oedd - 1af Hannah Roberts; 2il Mostyn Jones; 3ydd Annabelle Thomas.
- Manylwyd ar y gwahanol bartneriaid 'roedd y Gymdeithas yn cydweithio â hwy.
- Steddfota – manylwyd ar y gwaith oedd ynghlwm â pharatoi'r rhifyn.
- Cynhaliwyd Cwis Nadolig ar gyfer y dysgwyr, Rhagfyr diwethaf.
- Cyfryngau Cymdeithasol – (Gweplyfr 2,800 o ddilynwyr, Twitter 1,041 a Instagram 118 o ddilynwyr ers Chwefror 2023)
- Gwasanaeth Dylunio – nodwyd bod dylunio posteri, rhaglenni, tystysgrifau a.y i'w gael am ddim.
- Cyfarfodydd "Seiat Steddfota" – cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod mis Ebrill yng Nghricieth a Llanrwst. 'Roedd y cyfarfodydd yn eithaf llwyddiannus gyda chynrychiolaeth teilwng o wahanol eisteddfodau'n bresennol.
- Ymweld ag eisteddfodau – er mwyn cyfarfod a chael sgwrs gyda swyddogion a threfnwyr eisteddfodau, yn ogystal â dangos cefnogaeth i'r digwyddiad a'r cystadleuwyr, parheir i ymweld ag eisteddfodau pan mae'n bosibl gwneud hynny.
- Y Wefan – yn ystod y flwyddyn lansiwyd gwefan newydd gyda'r logo wedi ei ddatblygu er mwyn adlewyrchu gwedd mwy deinamig a chyfoes.
- Map Rhyngweithiol – cydweithiwyd gyda Mei Mac ar y map a fydd i'w weld ar wefan y Gymdeithas. Wrth glicio ar leoliad, bydd y map wedyn yn sŵmio i mewn i'r ardal benodol ac yn agor bocs a fyddai'n cynnwys manylion cyswllt yr eisteddfod benodol
- Manylwyd ar y digwyddiadau a gynhelir ar y stondin yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i Aled a Lois am yr adroddiad.

3. **Adroddiad y Cadeirydd ar ddatblygiadau'r flwyddyn:** Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion canlynol –

- Aeth blwyddyn arall heibio yn hanes y Gymdeithas, ac rydym yn falch gweld bod y mwyafrif o eisteddfodau wedi'u cynnal ar lwyfan.
- Yn ystod y flwyddyn, collwyd sawl eisteddfodwr o fri a chydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teuluoedd. Bydd colled enfawr ar eu hôl.
- Rydym yn falch iawn bod Lois ac Aled yn cydweithio mor dda â'i gilydd, ac mae'r swyddogion gant y cant tu ôl iddynt ym mhob dim maent yn ei wneud er lles y Gymdeithas a'r Eisteddfodau.
- Cafwyd sawl eitem ar newyddion radio a theledu, a gwefannau Golwg360 a BBC Cymru Fyw a Phapurau Bro, heb son am yr holl sylw ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cafwyd stondin yn y ddwy Eisteddfod Genedlaethol eleni eto, a'r ddau swyddog wedi gweithio'n galed iawn i baratoi cyn ac yn ystod y ddwy ŵyl. Cytunodd y ddau i ymweld â rhai eisteddfodau lleol yn ystod y flwyddyn i gynnig cymorth neu syniadau gyda materion ymarferol ac i ddangos cefnogaeth. Eleni cynhaliwyd dau gyfarfod wyneb yn wyneb gyda chynrychiolwyr eisteddfodau yn y Gogledd ac mae dau gyfarfod pellach i'w trefnu yn y De a'r Canolbarth cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Gwelwyd cynnydd unwaith yn rhagor yn y bobl sy'n defnyddio'r dudalen Gweplyfr a chyfri Twitter ac erbyn hyn gwefan newydd y Gymdeithas Ers y llynedd mae gan y Gymdeithas safle Instagram a YouTube hefyd. Cofrestrodd mwy o bobl i dderbyn Steddfota yn ystod y flwyddyn a hynny drwy'r post a thrwy e-bost.
- Mae gwefan y Gymdeithas wedi bod yn ddefnyddiol iawn i'r eisteddfodwyr, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eisteddfodau'n cael ei nodi a'i ddiweddaru er budd y defnyddwyr.
- Diolch i Is-Adran Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru am ddyfarnu grant blynyddol ac am gynnig arweiniad strategol sy'n galluogi'r Gymdeithas i gyflawni ein cenadwri. Parheir i gyfrannu'n adeiladol at waith Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg y Llywodraeth drwy drafod cynlluniau i warchod ac ymestyn apel y Gymraeg o fewn ein cymunedau.
- Mae Elfyn Thomas a'i Gwmni yn fodlon noddi'r raffl unwaith yn rhagor flwyddyn nesaf ac mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn iddo. 'Rydym yn ddiolchgar hefyd i'r holl bwyllgorau sy'n talu tâl aelodaeth o £20 y flwyddyn.

- Edrychir ymlaen at ddathlu penblwydd y Gymdeithas yn ystod penwythnos 20/21 Hydref a chael cyfle i edrych yn ôl tros bum mlynedd ar hugain o weithgarwch a chydweithio.
- Tlws Coffa Aled Lloyd Davies – disgwylir y cyflwynir y tlws yng Ngŵyl Cerdd Dant Caerdydd eleni a'i gyflwyno am y tro cyntaf i enillydd yn yr ŵyl yn Yr Wyddgrug y flwyddyn nesaf.

Diolchodd i'r ddau swyddog am eu gwaith diflino er budd y Gymdeithas ac hefyd i'r ysgrifennydd, trysorydd a'r is-gadeirydd ac aelodau'r pwyllgor. Dymunodd yn dda i Meinir, priod Aled, a dderbyniodd lawdriniaeth fawr yn ystod y misoedd diwethaf.

4. Adroddiad y Trysorydd
Cyflwynwyd y fantolen a oedd yn dangos yr incwm a'r gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mai 2023. Cytunodd y Cyfarfod Blynyddol i dderbyn y fantolen ariannol.

5. Ethol Swyddogion (Cymerwyd y gadair ar gyfer yr eitem hon gan Mostyn Jones)

Ailetholwyd y canlynol yn swyddogion am 2023/24:
Cadeirydd – Megan Jones Roberts, Is-gadeirydd – Bill Davies, Trysorydd – Gareth Jones, Ysgrifennydd – Gwyn Parry Williams

Diolchwyd i Megan Jones Roberts am ei gwaith fel Cadeirydd y Gymdeithas.

6. Anrhydeddu gwirfoddolwyr
Cynhaliwyd seremoni yn gynharach yn y dydd i anrhydeddu'r gwirfoddolwyr canlynol sydd wedi gweithio'n ddiflino er budd eisteddfodau lleol trwy Gymru tros nifer helaeth o flynyddoedd. Cadeiriwyd y seremoni gan Megan Jones Roberts, Cadeirydd y Gymdeithas, gydag Aled Hughes, Radio Cymru yn cyflwyno'r tystysgrifau i:

Eryl Huw Jones – Eisteddfod Môn
Gwyneth Roberts a Sulwen Edwards – Eisteddfod Gadeiriol Chwilog
Mair Owen a Dilwyn Thomas – Eisteddfod Gadeiriol Mynytho
Hefin O Lloyd – Eisteddfod Llawrplwy' a Phenstryd, Trawsfynydd
Douglas Hughes Jones a Sandra Moore – Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn
Jane Jones – Eisteddfod Bro Aled, Llansannan
Janet Warren – Eisteddfod Dyffryn Ceiriog
Eurfryn Griffith Davies – Eisteddfod Bro Llandegfan
Gwen Owen – Eisteddfod Garndolbenmaen
Melfyn Williams – Eisteddfod Calan Mai, Betws yn Rhos
Gwilym Griffiths, Mair Roberts a Menna Hughes – Eisteddfod Gadeiriol Y Ffôr
Carol Metcalfe, Robert J. Ellis, Nan Davies, Huw Elwyn Roberts, Arfon Williams ac Eirlys Hughes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy, Llanrwst

****

GWEITHGAREDDAU A DATBLYGIADAU'R FLWYDDYN - CRYNODEB

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLŶN AC EIFIONYDD 2023
Ar y stondin, cynhaliwyd 20 sesiwn gyda thua 50 o gyfranwyr yn amrywio o weithdai clocsio ac ukulele, creu darn o gerdd yng nghwmni Bardd Plant Cymru, perfformiadau Sgen Ti Dalent a sgyrsiau amser cinio yn cynnwys atgofion sefydlu'r Gymdeithas, hanes eisteddfodau cynnar Pwllheli, sgyrsiau gydag enillydd Llyfr y Flwyddyn ac enillwyr Tlws yr Ifanc mewn eisteddfodau lleol. Am y tro cyntaf gwahoddwyd cyn-enillwyr Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc i drafod eu gwaith hefyd.

Lansiwyd testunau eisteddfodau Melin y Coed, ffrydiwyd sesiwn lansio testunau llenyddol Teulu James Pantyfedwen dros Facebook, a bu cyfle i ffrydio'r prif seremonïau ar ein sgrin. Tynnwyd y raffl ar y prynhawn Sadwrn olaf yng nghwmni cynrychiolydd o Teithiau Elfyn Thomas. Recordiwyd rhai o'r sgyrsiau a gynhaliwyd ar stondin y Gymdeithas e.e sgwrs Y Tri Gŵr Doeth, rhwng Garry Owen, Ellis Wyn Roberts a Gron Elis, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi fel podlediadau ar ein sianel You Tube.

Am y tro cyntaf, arbrofwyd drwy gynnal y Seremoni Tystysgrifau fel digwyddiad ar wahân i'r Cyfarfod Blynyddol. Cynhaliwyd y digwyddiad fore Mawrth 8 Awst ar uned Llywodraeth Cymru, gyda Bethan Webb yn dweud gair ar ran y Llywodraeth gan bwysleisio pwysigrwydd eisteddfodau lleol, ac Aled Hughes (BBC Radio Cymru) yn arwain y seremoni. Cyflwynwyd 22 o dystysgrifau, ac roedd 18 o'r gwirfoddolwyr yn bresennol gyda'u teuluoedd a chyfeillion. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ym mhabell Cymdeithasau 1 ac er mai siomedig oedd y nifer oedd yn bresennol, cafwyd cyfle i edrych yn ôl dros weithgareddau'r flwyddyn ac ymlaen at yr hyn oedd i ddod.

Bu sawl cyfle i gael sylw ar gyfryngau torfol yn ystod yr wythnos ym Moduan gan gynnwys - sgwrs rhwng Megan a Tudur Owen ar S4C wedi ei recordio ar Stondin y Gymdeithas, sgwrs yn olrhain hanes sefydlu'r Gymdeithas rhwng Ellis Wyn Roberts, Gron Elis a Garry Owen ar BBC Radio Cymru wedi ei recordio ar Stondin y Gymdeithas, a chyfweliad rhwng Garry Owen ac Aled ar Dros Frecwast yn trafod anrhydeddu swyddogion pwyllgorau. Cafodd y Gymdeithas sylw hefyd mewn erthygl wedi ei baratoi gan Siân Teifi yn Rhaglen Swyddogol yr Eisteddfod ac roedd proffil y Gymdeithas yn amlwg mewn ardaloedd eraill: Pafiliwn Mawr (Cystadleuaeth Corawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru) - Côr Eifionydd oedd y côr buddugol; Caffi Maes B – (Cystadleuaeth Perfformio Darn Digri) - yr enillydd oedd Peredur Hedd Llywelyn, a'r Babell Lên - cyfle i Lois ddweud gair cyn i enillydd Tlws yr Ifanc, Gruffudd ab Owain, gael ei gyhoeddi.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: Dilynwyr - Facebook 2989, X 1100, Instagram 162
Defnyddiwyd Facebook, X (Twitter) ac Instagram yn gyson yn ystod y flwyddyn i rannu newyddion a gwybodaeth am eisteddfodau lleol er mwyn annog cefnogaeth a denu sylw atynt, ac fe'u defnyddir hefyd i hyrwyddo gwaith y Gymdeithas. Rhannwyd amserlen ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a rhannwyd lluniau o'r gweithgareddau/sesiynau wrth ac ar ôl iddynt gael eu cynnal. Yn ogystal, rhannwyd manylion cystadlaethau CEC, cyfarchion Nadolig, blwyddyn newydd, Gŵyl Ddewi a Pasg, hysbysbeb swydd y Swyddog Datblygu, poster o eisteddfodau pob mis, a dymunir yn dda i bob eisteddfod yn yr wythnos cyn iddynt gael eu cynnal. Noder bod nifer ein dilynwyr yn cynyddu'n fisol hefyd.

A D R O D D I A D B L Y N Y D D O L 2 0 2 4

DYLUNIO: Yn ogystal â deunyddiau ar gyfer hyrwyddo ein gweithgarwch ni, defnyddiwyd y gwasanaeth dylunio gan 14 eisteddfod ers mis Awst 2023, ar gyfer rhaglenni, posteri a thystysgrifau.

Y WEFAN: Derbyniwyd y deunydd a'r wybodaeth arferol ar gyfer y wefan ar hyd y flwyddyn**,** sef dyddiadau a manylion cyswllt eisteddfodau 2024-2025**;** rhaglenni, testunau llenyddol a thestunau dysgwyr; adroddiadau, canlyniadau a lluniau o'r eisteddfodau.Yn ogystal, rhannwyd rhifynnau Steddfota, gwybodaeth am benwythnos dathlu CEC yn 25, hysbyseb swydd y Swyddog Datblygu, posteri/manylion cystadlaethau 2023-2024 a 2024-2025. Mae map rhyngweithiol o'r holl eisteddfodau ar y dudalen gartref erbyn hyn hefyd (gwaith a wnaed fel rhan o'r cytundeb gyda Mei Mac). Bwriedir ychwanegu at y wybodaeth a geir wrth glicio ar y lleoliadau. Braf nodi bod yr adborth a geir wrth sgwrsio am y wefan yn gadarnhaol.

STEDDFOTA: Paratowyd 4 rhifyn – Tachwedd 2023, Mawrth 2024, Mai 2024 ac Awst 2024. Casglwyd yr holl ddeunydd at ei gilydd gan Lois ac Aled, ac ar ôl i'r gwaith gosod a dylunio gael ei gwblhau, gwiriwyd pob drafft terfynol gyda chymorth Megan/Bill. Argraffwyd y cyfan drwy wasanaeth hwylus Argraffwyr Lewis & Hughes, Tregaron. Gwnaed y gwaith pecynnu a phostio arferol gan Lois, a chludwyd pecynnau'r siopau i ganolfan ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru. Llwythwyd copi pdf o bob rhifyn i'r wefan ac anfonwyd copi at bawb ar y rhestr "Derbyn drwy e-bost". Bu cynnydd eto yn y cylchrediad a'r nifer sy'n dymuno derbyn copi, a hynny drwy ffurflen danysgrifio'r wefan. Dyma'r ffigyrau diweddaraf: 119 copi ebost, 109 ysgrifenyddion/swyddogion eisteddfodau drwy'r post, 244 aelodau o'r cyhoedd drwy'r post, 41 siop Gymraeg [8 copi yr un].

GŴYL CERDD DANT AC EISTEDDFOD CFFI CYMRU: Mawr yw ein diolch i Megan, Gwyn a Rhian am wirfoddoli ar ein stondin fach yn yr Ŵyl lwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2023. Bu cyfle hefyd i gyflwyno Cwpan Tlws Coffa Aled Lloyd Davies, gan y Gymdeithas fydd yn rhan o gystadlaethau'r Ŵyl yn yr Wyddgrug 2024. Diolch hefyd i Llifon am drefnu criw i osod stondin y Gymdeithas yn Eisteddfod CFfl Cymru ar Ynys Môn.

MEWN CYMERIAD 2023-2024: O ganlyniad i'r diffyg cystadlu ar y gystadleuaeth yn yr eisteddfodau lleol, er gwaetha'r holl hyrwyddo (cyfryngau cymdeithasol, y wefan a thrwy anfon gwybodaeth at ysgolion uwchradd a cholegau), cytunwyd i addasu ychydig ar amodau cystadlu ar y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT. Gyda chydweithrediad y Genedlaethol newidiwyd y geiriad (dros dro) i: "I gystadlu yn y Eisteddfod Genedlaethol 2024, byddai cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a diwedd Mai 2024 **yn ddymunol, ond ddim yn orfodol**." Ers hynny bu un cystadleuydd yn Eisteddfod Dihewyd ar yr 17eg o Fai, a'r unigolyn hwnnw yw'r unig un sydd wedi cofrestru i gystadlu yn y Genedlaethol eleni. Ar gyfer cystadleuaeth 2024-2025, ry'n ni'n gobeithio medru ychwanegu at y dewis o sgriptiau yn ystod yr wythnosau/misoedd nesaf. Gobeithio bydd gennym fwy o fanylion i'w rhannu yn yr Hydref.

TLWS YR IFANC 2023-2024: Gwnaed tipyn o waith cysylltu a chydlynu gydag eisteddfodau lleol er mwyn eu hatgoffa am y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Derbyniwyd 27 o ddarnau ac anfonwyd nhw yr Eisteddfod Genedlaethol, i gael eu beirniadu. Cynhelir y seremoni wobrwyo ar brynhawn Sul y 4ydd o Awst, am 5:15pm yn y Babell Lên.

CYSTADLEUAETH GORAWL 2023-2024: Mae 8 côr wedi cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT ar Ddydd Sadwrn, y 3ydd o Awst: Côr Y Gleision, Côr Seingar, Côr Hafodwennog, Côr Meibion Taf, Côr Caerdydd, Côr Godre'r Garth, Côr Rhuthun a Chôr Eifionydd.

CYSTADLAETHAU 2024-2025: Cytunwyd ar ddyddiadau'r cystadlaethau am y flwyddyn i ddod. Mewn Cymeriad (Mai 2024–Mai 2025), Tlws yr Ifanc (Ebrill 2024-Ebrill 2025) a'r Gystadleuaeth Gorawl (Mai 2024-2025). Diweddarwyd y posteri ar gyfer Steddfota, y wefan a phosteri'r stondin.

AELODAETH: Er mwyn ceisio cael trefn ar restr aelodaeth y Gymdeithas, a sicrhau bod pob eisteddfod yn talu'r swm cywir o £20, anfonwyd ebost at yr holl ysgrifenyddion i ofyn iddynt wirio a oedd y taliad wedi'i wneud. Pwysleisiwyd hefyd y dylid nodi enw'r pentref/tref lle cynhelir yr eisteddfod, yn eglur. Treuliwyd tipyn o amser yn ceisio datrys cynnwys rhestr oedd gan Gareth Jones (Trysorydd CEC) er mwyn gweld pwy oedd wedi talu ac ati. Ers anfon yr ebost mae sawl eisteddfod wedi cysylltu i gadarnhau un ffordd neu'r llall ac mae'r taliadau yn cael eu gwneud.

FFURFLEN CASGLU NIFEROEDD: Paratowyd ffurflen ym mis Mawrth/Ebrill eleni er mwyn casglu brasamcan o niferoedd categorïau penodol mewn eisteddfodau lleol. Anfonwyd hon at yr eisteddfodau lleol wedi iddynt gael eu cynnal, gydag eglurhad y byddai'r canlyniadau a gasglwyd yn dystiolaeth werthfawr ac yn gymorth gwirioneddol i'r Gymdeithas wrth i'r cais grant gael ei gyflwyno'n flynyddol i Lywodraeth Cymru. Derbyniwyd 11 o ffurflenni wedi'u cwblhau hyd yma.

EISTEDDFOD YR URDD: Er bod y gwaith paratoi wedi'i wneud yn ystod mis Mai eleni, bu'n rhaid tynnu nôl o fynychu Eisteddfod yr Urdd gyda'n stondin eleni. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion am wneud y penderfyniad ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r sefyllfa staffio a'r anffawd i fy mraich innau – rwy'n gwerthfawrogi eu cefnogaeth. Diolch hefyd i stondin Mentrau Iaith am gytuno i arddangos rhaglenni eisteddfodau a chopïau o Steddfota ar ein rhan.

EISTEDDFODAU NEWYDD: Cafwyd cyfarfod Zoom gyda threfnwyr eisteddfod newydd Felinheli yn ystod mis Mai a chael clywed lle maen nhw arni hyd yma gyda'r trefniadau. Maent yn bwriadu cadw mewn cysylltiad wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Da gweld criw ifanc brwdfrydig yn bwrw ati i sefydlu a threfnu eisteddfod. Byddwn yn parhau i drafod gyda lleoliadau eraill gan obeithio bydd rhagor o eisteddfodau newydd yn cael eu sefydlu.

YMWELD AG EISTEDDFODAU: Ers Awst 2023, cafwyd cyfle i ymweld ag Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr P.S, Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn, Eisteddfodau Cylch (Llanbed ac Aeron) a Rhanbarth yr Urdd (Ceredigion) ac Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid.

YMHOLIADAU CYFFREDINOL: Wedi ymateb i amryw o ymholiadau o wythnos i wythnos, gan gynnwys manylion cyswllt beirniaid**,** canllawiau seremoni Cadeirio/Coroni**,** nawdd "Sgen ti Dalent?"**,** cystadlaethau CEC**,** tâl aelodaeth**,** eitem ar Heno S4C (awgrymu sgwrs ag Eisteddfod Marian-glas oedd yn dathlu canmlwyddiant eleni)**,** eitem ar newyddion BBC (diolch i Bill am gymryd rhan yn hwn), polisi Ffotograffiaeth a Chyfryngau Cymdeithasol ar gyfer eisteddfodau a thocynnau raffl (derbyn bonion/arian a phostio tocynnau ychwanegol at eisteddfodau).

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHONDDA CYNON TAF 2024: Y paratoadau ar waith ar gyfer – stondin ddwbwl (posteri/gwaith print), gweithgareddau gan gyfranwyr, seremoni tystysgrifau anrhydeddu, cyfarfod blynyddol, gwirfoddolwyr i gynorthwyo ar y stondin, archebu tocynnau a.y.b. Bydd amserlen derfynol o weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod yr wythnos i'w gweld ar y stondin.

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAI 2024

	2024 £	2023 £
INCWM		
Llywodraeth Cymru	54,369	56,979
Grant arall	0	400
Dathliadau 25 mlynedd	4,980	0
Tanysgrifiadau	1,550	1,520
Raffl y Gymdeithas	526	1,137
Llôg	126	42
	61,551	**60,079**
GWARIANT		
Cyflogau Swyddogion	27,946	34,943
Costau Swyddfa	2,750	3,173
Gweithgareddau eisteddfodau	1,631	5,057
Eisteddfodau Cenedlaethol	13,055	13,538
Dathliadau 25 mlynedd	2,188	0
Argraffu a phrynu nwyddau ac offer eraill	4,664	3,467
Diweddaru a cynnal y wefan	690	2,379
Costau rheolaeth a gweinyddol	1,396	1,022
	54,320	**63,579**
Gweddill am y flwyddyn	**7,231**	**(3,500)**
Mantolen ar ddiwedd y flwyddyn		
ASEDAU CYFREDOL		
Dyledwyr	11,297	13,383
Arian yn y banc	8,577	1,961
	19,874	**15,344**
Credydwyr	(393)	(3,094)
Asedau net	**19,481**	**12,250**
CRONFA WRTH GEFN		
Ar ddechrau'r flwyddyn	12,250	15,750
(Diffyg) / Gweddill am y flwyddyn	7,231	(3,500)
Ar ddiwedd y flwyddyn	**19,481**	**12,250**

TYSTYSGRIFAU ANRHYDEDD 2024

Anne Lewis	Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith
Geraint Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog
Rhiannon Roberts	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog
D.T Gareth Jones	Eisteddfod Gadeiriol Tregaron
Enid McCall	Eisteddfod Fach Capel Dewi
Marilyn Jones	Eisteddfod Trallong
Gwenda Walters	Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen
Pamela Lewis	Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen
Menna Griffiths	Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen
Mari Wyn	Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn a'r Cylch
Pauline Evans	Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn a'r Cylch
Eifion Daniels	Eisteddfod Gadeiriol Crymych
Aelodau Pwyllgor a Gwirfoddolwyr	Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid
Lyn Evans	Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch
Eryl Jones	Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech
Llinos Davies	Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech

MAE CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU YN ELUSEN GOFRESTREDIG. RHIF YR ELUSEN: 1079429